



Cyfres newydd, rhif 69

Hydref 2024



**Yng nghyffro gweinidogaeth – bro Rheidol,
Fe barha d'ofalaeth,
Lle bu d'ofal dyfal daeth
I'n heneidiau'r genhadaeth.**

Eurig Salusbury

Dim ond gair bach i gloi ...

Fel y gŵyr pob un a gafodd eu gwahodd i gyflawni'r gorchwyl, maes y mae angylion dawnus yn ceisio'i osgoi yw'r gorchwyl o 'gynnig gair o ddiolch' ar ddiwedd cyfarfod, darlith neu ddigwyddiad. Nid diffyg diolchgarwch sy'n peri'r fath swildod. Gwybod, yn hytrach, yr ydym pa mor rhwydd yw enwi rhai heb enwi eraill sydd yr un mor haeddiannol o glod ac o werthfawrogiad yn y diolchiadau!

Cyn mentro 'diolch' yn helaethach, hoffwn fynegi diolchgarwch Lowri a minnau am eich croeso i'ch plith saith mlynedd yn ôl. Diolch i bob un o'r capeli am ein galluogi i ymgartrefu yn y fro.

Wna' i byth anghofio eistedd ym mhulpud Bethel, Cross Hands, am y tro cyntaf a gweld y geiriau 'Syr, ni a ewyllysiem weled yr Iesu' wedi eu gosod yno. Nid estynnwyd i unrhyw un fraint uwch na chael agor y Gair a dangos 'golud Crist yn fodd i fyw'. Diolch i chi am ganiatáu i mi geisio cyflawni'r alwedigaeth hon yn eich plith. Y mae fy niolch i Lowri am fod yn gefn ar hyd y blynyddoedd yn amlwg yn anfesuradwy.

Hoffwn gynnig 'gair o ddiolch' i bob un o aelodau ffyddlon y capeli gwahanol am eich ffyddlondeb i'r oedfaon ac i'r cyfarfodydd. Daethom i adnabod y 'ffyddloniaid' yn fuan iawn, a daethom hefyd i sylweddoli bod angen rhwystr go sylweddol i'w hatal rhag mynychu moddion gras.

Mae'r diolch hefyd yn cynnwys aelodau capel y Babell, Dôl-y-bont, ac aelodau Nasareth, Tal-y-bont, a fu'n ffyddlon i'w hachosion lleol hyd nes y bu'n rhaid dwyn yr achosion hynny i ben.

Diolch hefyd i'r rhai a roddodd o'u hamser ac a gyfrannodd eu doniau i ddysgu plant yr ysgol Sul yn eu capeli yn ogystal â'r rhai a fu'n paratoi paneidiau o de wedi oedfaon.

Diolchwn hefyd am y gwaith gyda'r Gymdeithas Lenyddol yn y Garn ac am 'Gair o'r Garn', sydd bob amser yn brydlon, yn ddestlus ac yn ddiddorol.

Carwn hefyd ddiolch i chi oll a'n cefnogodd yn yr oedfa 'gollwng' ar 21 Gorffennaf. Bu'r achlysur yn gymysgfa chwerw felys o emosiynau. Diolch hefyd am fod mor groesawgar tuag at aelodau o'n teulu fedrodd ymuno gyda ni dros ginio yn Rhydypennau. A diolch am eich caredigrwydd wrth gyflwyno'r dysteb a'r blodau.

Ni fyddwn am gloi hyn o eiriau heb ddiolch yn benodol i swyddogion yr ofalaeth am eu doethineb. Daeth chwech o lywyddion yn eu tro i'n harwain, a diolchwn i drysoryddion yr ofalaeth hefyd am eu gofal dros ein buddiannau ariannol. Yr ydym fel gofalaeth yn ddyledus i'r Athro Gruffydd Aled Williams am wasanaethu fel ysgrifennydd pwylllog a doeth ar hyd y blynyddoedd.

A dyma'r frawddeg allweddol ym mhob gair o ddiolch. Os wyf heb eich enwi, neu wedi llithro dros rai sy'n llawn haeddu eu henwi ond na chrybwyllwyd mohonynt, maddeuwch i mi am hynny. Pe byddwn yn diolch i bawb wrth eu henwau, dwi'n ofni mai darllen adroddiad fel llyfr ffôn hen ffasiwn fyddai'r diolchiadau hyn. Nid diffyg diolchgarwch ond diffyg lle sydd i gyfrif am hyn.

Digon, wrth gloi hyn o eiriau, yw mynegi bod fy niolchgarwch i bob un ohonoch yn gwbl ddiffuant.

Gras ein Harglwydd Iesu fyddo gyda ni oll.

Walcyn James

Cyhoeddiadau'r Ofalaeth &c

- 3 Hydref Pwyllgor Bugeiliol Gofalaeth y Garn
Festri'r Garn am 7 o'r gloch
- 5 Hydref Cyfarfod Cenhadol Chwiorydd
Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro
Capel Bwlch-llan am 2 o'r gloch
'Deiseb Heddwch 1923' – Siân Howys
Cyflwyniad gan Sarah Morris i'r llyfr thema:
'Iesu, y ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd'
- 27 Hydref Oedfa'r ofalaeth am 10 o'r gloch
yng Nghapel y Garn
dan arweiniad Mrs Delyth Morgans Phillips
Casgliad tuag at HAHAV – elusen yr ofalaeth
- 22 Rhagfyr Gwasanaeth y 'Gair a'r Geiriau'
yng Nghapel y Garn am 10 o'r gloch
- 25 Rhagfyr Oedfa ar fore'r Nadolig
Capel y Garn am 9 o'r gloch

HAHAV – elusen yr ofalaeth

Yng nghyfarfod swyddogion yr ofalaeth ar 5 Medi, dewiswyd HAHAV yn elusen yr ofalaeth am y flwyddyn i ddod. Bydd casgliadau oedfaon yr ofalaeth yn cael eu cyfrannu at yr elusen arbennig hon sy'n cynnig cymorth di-dâl i bobl ar draws Ceredigion sy'n byw gyda salwch nad oes modd ei wella neu sy'n cyfyngu ar eu bywydau.

Ym mis Mehefin, lansiodd HAHAV ymgyrch codi arian mewn ymgais i ddiogelu a datblygu ei gwasanaethau ar gyfer y blynyddoedd nesaf hyn. Gyda chanolfan newydd ar gyrion Aberystwyth a'r galw am ei gwasanaethau yn cynyddu ar draws y sir, y nod yw codi £200,000 yn y 18 mis nesaf.

Am ragor o wybodaeth am yr elusen, ewch i'r wefan:
<https://hahav.org.uk>.

Tudalen y Plant

Gwersi Stori Duw



Dyma lun o Noa yn casglu anfeiliaid at ei gilydd i fynd i mewn i'r arch. Mae'r hanes yn llyfr cyntaf y Beibl – llyfr Genesis. Ond pa anifail sydd ddim ar restr Noa, tybed? Darllenwch yr hanes yn Genesis 6:21.

DS Mae gwersi Beiblaidd i blant a phobl ifanc rhwng 3 a 18 oed bellach ar gael, yn rhad ac am ddim, o wefan **gair.cymru**. Bydd y gyfres o 44 o wersi yn eich arwain drwy'r Beibl, gyda gwersi, storïau, gwaith crefft, taflenni gwaith, ffilmau a gemau ar gael.

Ffarwelio â'n Gweinidog

Bore Sul, 21 Gorffennaf, daeth cynulleidfa luosog o holl gapeli'r ofalaeth i wasanaeth teimladwy a chofiadwy yng Nghapel y Garn, ar achlysur ymddeoliad y Parch. Ddr R. Watcyn James o fod yn weinidog yn yr ofalaeth.

Llywyddwyd y cyfarfod gan Dr Rhidian Griffiths, Llywydd Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro, ac ef hefyd oedd yn gyfrifol am y ddefod o ryddhau'r gweinidog o'i ddyletswyddau yn yr ofalaeth.

Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan aelodau'r gwahanol gapeli oedd yn gyn-gadeiryddion Pwyllgor yr Ofalaeth, yn cynnwys Bob Williams, Rehoboth; Ina Williams, Capel Seion; Delyth Davies, Pen-llwyn, yn ogystal â rhai o blant yr ofalaeth, sef Lois, Math, Celt, Iago a Lisi. Cafwyd cyfraniadau hefyd gan ddau gyn-weinidog yn yr ofalaeth, sef y Parch. Elwyn Pryse a'r Parch. Wyn Morris, a offrymodd weddi dros y gweinidog ac eglwysi'r ofalaeth. Yr organyddes oedd Llinos Dafis. Hyfryd hefyd oedd cael cwmni nifer o aelodau teulu Watcyn yn rhan o'r achlysur.

Cyn ein harwain at Fwrdd y Cymun, cyfeiriodd y Gweinidog at yr ymdeimlad o alwad i bregethu a deimlodd yn ifanc iawn a'r profiad trawsnewidiol a gafodd yn hwyr un noson ger Llyn Tegid, y Bala, pan oedd yn ei arddegau, profiad a'i harweiniodd i'w gyflwyno'i hun i'r weinidogaeth.

Seiliodd ei fyfyrddod ar y geiriau: 'Wele, yr wyf yn sefyll wrth y drws ac yn curo; os clyw rhywun fy llais ac agor y drws, dof i mewn ato, a bydd y ddau ohonom yn cydfwyta gyda'n gilydd' (Datguddiad 3:20). Ei anogaeth oedd ar i ninnau oll i ymateb a derbyn y gwahoddiad hwn drwy ras Duw.



Ar ran aelodau eglwysi'r ofalaeth, cyflwynodd Alwyn Hughes, Cadeirydd presennol Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth, dysteb i'r Parch Watcyn James, gan gyfeirio at ei wasanaeth diflino, ei ymroddiad fel bugail gofalus, yn ogystal â'i bregethu angerddol. Yna, cyflwynwyd rhodd i Mrs Lowri James gan Heulwen Lewis, yn ogystal â thusw o flodau gan Lois.

Yn dilyn y gwasanaeth, aeth nifer dda o'r aelodau a'r teulu draw i fwyty Crefftau Pennau i fwynhau pryd blasus o fwyd a'r cyfle i gymdeithasu – yn ogystal â rhannu'r gacen arbennig oedd wedi'i pharatoi ar gyfer yr achlysur.

Roedd diolch a gwerthfawrogiad holl eglwysi'r ofalaeth o weinidogaeth gyfoethog y Parch. Watcyn James dros y saith mlynedd diwethaf hyn yn amlwg iawn – a dymunwn bob bendith i Watcyn a Lowri ar ddechrau pennod newydd yn eu hanes.



Uchod – nifer o'r rhai a gymerodd ran yn y gwasanaeth

Isod – tair cenhedlaeth yn mwynhau cinio yng Nghrefftau Pennau





Uchod – dau gyn-weinidog – y Parchedigion Elwyn Pryse a Wyn Rhys Morris – yn mwynhau cwmni Bob Williams ac Owen Jenkins
Isod – y criw yn yr heulwen y tu allan i fwyty Crefftau Pennau



Prynu'r amser ...

Beth tybed yw'r peth mwyaf gwerthfawr yn y byd? Mae'n ysgafn fel y gwawn, ond fe all wasgu arnom fel y mynyddoedd. Ar yr olwg gyntaf mae'n ddi-ben-draw, ac ar yr olwg arall dydy o ddim yn bodoli o gwbl. Ceisiwch ei osod mewn clorian ac nid yw'r bys yn cyffroi o gwbl. Gafaelwch ynddo ac nid oes modd ei ddal. I'r claf yn ei boen, mae mesur ohono yn ddiddiwedd ac i'r ieuanc, iach, diflanna yn ddjarwybod.

Dyma rywbeth sy'n diflannu wrth i ni ei wyllo, rhywbeth sy'n llithro drwy ein bysedd ac yn hedfan, er cymaint ein hawydd i ddal ein gafael ynddo. Ni all y person cyfoethocaf yn y byd brynu cyfran helaethach ohono, ac ni all y cardotyn tlotaf fegera am gyfran fwy ohono.

Sôn yr ydym, wrth gwrs, am 'Amser'. A chredwn mai:


Duw biau edau bywyd
a'r hawl i fesur ei hyd.

Pan droesom ein golygon ar symud i'r cylch ymddangosai saith mlynedd fel oes yn ymestyn ymlaen i'r dyfodol. Mi wn na chyflymodd bysedd y cloc, a bod curiad pob eiliad o'r amser hwnnw wedi bod yn ddiwyro, gyson. Ond rywsut, rhuthrodd yr hyn a ymddangosai mor bell i ffwrdd i'n cyfarfod, a diflannodd eiliadau gwerthfawr a bregus y saith mlynedd fel gwawn.

Saith mlynedd yn ôl mentrodd yr ofalaeth i'n gwahodd, a mentro a wnaethom ninnau. Gallaf ddweud yn onest nad wyf wedi difaru symud i'r fro am eiliad. Pan ddaethom yma, ni wyddem beth a ddeuai i'n rhan. Bryd hynny roedd sôn am gwblhau Brexit ond ni wyddem y deuai COVID, rhyfel chwerw yn Wcráin, nac am greulondeb yr hyn ddigwyddodd ar lain Gaza i derfysgu ein byd.

Oes modd i ni gloriannu'r hyn ddigwyddodd o fewn ein gofalaeth yn ystod yr amser hwnnw? Mae'n wir y medrem nodi Suliau, cyfarfodydd, digwyddiadau, bedyddiadau, dathliadau a llwyddiannau yn ein plith. Neu, fe allem gyfeirio at dristwch neu salwch a ddaeth i ran ein haelodau, am gollodion ac am angladdau. Ond ni fedrwn fesur dirgel weithgarwch yr Ysbryd Glân – Duw ei hun yw barnwr a mesurydd yr hyn a wnaeth ac a gyflawnwyd ganddo yn ein calonnau.

Er y gall ein hoes
seciwlwr ddibrisio
gweithgarwch o'r fath,
peidiwn ninnau â
chael ein temtio i fesur
'gwerth' yn ôl ffasiwn
gyfnewidiol na
phoblogrwydd brau!
Estynnwyd i ni'r fraint,
gyda'n gilydd, o fod yn
ddilynwyr i Iesu Grist a chawsom gyfle yn wythnosol i ddod ynghyd i'w addoli.



Amlygwyd hefyd nodweddion hanfodol Eglwys Iesu Grist yn ein plith. Cawsom ein galw ynghyd gan yr Arglwydd, o wythnos i wythnos, i addoli ac i rannu yng nghwmni ein gilydd. A pha beth, mewn oes sy'n dibrisio cariad Duw, allai fod yn fwy chwyldroadol na chael cyhoeddi o wythnos i wythnos fod yr Arglwydd yn teyrnasu, ei fod yn parhau i deyrnasu, ac na siglir sylfeini ei Arglwyddiaeth hyd yn oed am eiliad? A beth allai fod yn fwy rhyfeddol na bod yna gwmni o bobl yn cyfarfod nid yn unig i ganu mawl ond i agor Gair Duw gyda'i gilydd gyda'r bwriad o geisio dirnad yr hyn sydd ganddo i'w ddweud wrthym? Ac er i ni efallai, ar brydiau, syrthio i'r demtasiwn o feddwl am y Cymun a'r Bedydd fel defodau eglwysig 'tlws', gwerthfawrogwn a phrisiwn yn uchel y fraint nefol a gawsom i weinyddu a derbyn y Sacramentau drwy ffydd. Tystiwyd drwy'r arwyddion daearol, gweladwy, fod gras ein Harglwydd Iesu Grist yn real, bod cariad Duw yn brofiad byw i ni, a bod cymdeithas ei Ysbryd Glân yn parhau i'n cysgodi.

Hoffai pob un ohonom fedru dweud y cawsom brofi blynyddoedd o gynnydd neu fod yna arwyddion amlwg o fendith neilltuol. Ond fe gredwn, er i'r byd gael ei ysgwyd ac er i'r eglwys yn y Gorllewin gael ei gogrynu, mai ar gyfer y dydd hwn, y tymor hwn, y cawsom ein gosod i fod yn dystion i ddaioni Duw.

Duw a roddo i ni galonnau i'w geisio, ewyllys i'w wasanaethu, a'i Ysbryd i fywhau ein heneidiau lluddedig.

Watcyn James

Capel y Garn

Llongyfarchiadau calonnog:

i'r Parch Elwyn Pryse ar enedigaeth gorwyres, Erin Haf, merch fach Meleri ac Andrew;

i Owain a Debbie Morgan ar enedigaeth wŷr, Ifan Elystan, mab bach Lowri a Llŷr;

i Ann ac Alan Wynne Jones ar ddathlu eu priodas ddiemwnt ar 29 Awst;

i Glenys a John James ar ddathlu eu priodas aur ar 14 Medi;

i Vernon Jones ar amryw o lwyddiannau eisteddfodol.

Dymuniadau gorau:

i Mabon, wŷr y Parch Watcyn a Mrs Lowri James.

Da clywed ei fod yn gwella ar ôl cael ei daro'n wael yn ystod yr haf.

Estynnir ein cydymdeimlad diffuant:

â Robin Clarke a'r teulu ar farwolaeth Jennifer Clarke, Tŷ Capel, gynt;

â Dilys a Vernon Jones ar farwolaeth wyres.

Boreau Coffi

Bydd y boreau coffi sy'n cael eu trefnu ar y cyd gan Bwyllgor Neuadd Rhydypennau, Capel y Garn, Capel Noddfa, ac Eglwysi Llandre a Llangorwen, yn ailddechrau yn Neuadd Rhydypennau fore Gwener, 4 Hydref.

Croeso cynnes i unrhyw droi i mewn am baned a sgwrs rhwng 10 a 12 o'r gloch.



Capel y Garn

Hydref

Blaenor y mis: Alan Wynne Jones

- 1 Cyfarfod o'r Grŵp Addoli
Festri'r Garn am 10 o'r gloch
- 2 Chwirydd y Garn yn cyfarfod am baned a sgwrs
Creffttau Pennau am 2.30 o'r gloch
- 3 Pwyllgor Bugeiliol Gofalaeth y Garn
Festri'r Garn am 7 o'r gloch
- 5 Cyfarfod Blynnyddol Chwirydd yr Henaduriaeth
Capel Bwlch-Ilan, am 2 o'r gloch
Anerchiad: 'Deiseb Heddwch 1923' gan Siân Howys
Cyflwyniad i'r llyfr thema: 'Iesu, y ffordd a'r gwirionedd
a'r bywyd' gan Sarah Morris
- 6 Oedfa dan arweiniad y Parch Richard Lewis
yng Nghapel Noddfa am 10 o'r gloch
- 13 Oedfa dan arweiniad y Fns Bronwen Morgan
am 10 o'r gloch
- 18 Cymdeithas Lenyddol y Garn
'Cofio Elystan' gyda'r Dr Huw Williams, Caerdydd,
am 7.30 o'r gloch
Cyfle i ymaelodi o 7.15 ymlaen – £10 am y tymor
- 20 Oedfa gymun dan arweiniad Dr Rhidian Griffiths
Capel Pen-llwyn am 10 o'r gloch
- 27 Oedfa'r ofalaeth am 10 o'r gloch
dan arweiniad Mrs Delyth Morgans Phillips
Casgliad tuag at HAHAV – elusen yr ofalaeth

Capel y Garn

Tachwedd

Blaenor y mis: Gruffydd Aled Williams

- 3 Oedfa – trefniant lleol
Capel y Garn am 10 o'r gloch
- 6 Chwirydd y Garn yn cyfarfod am baned a sgwrs
Creffttau Pennau am 2.30 o'r gloch
- 10 Oedfa gymun dan arweiniad
y Parch Athro John Tudno Williams
am 10 o'r gloch

Cynhelir pleidlais ynghylch symud ymlaen i ethol blaenoriaid ychwanegol

- 15 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Islwyn Ffowc Elis – cipolwg ar ei yrfa
ar ganmlwyddiant ei eni', gan Rheinallt Llwyd
- 17 Oedfa dan arweiniad Huw Roderick am 10 o'r gloch
- 24 Oedfa dan arweiniad y Parch Richard Lewis
Capel Noddfa am 10 o'r gloch
- 30 Bore Coffi'r Adfent
dan ofal y Chwirydd
Festri'r Garn, 10–12 o'r gloch



Capel y Garn

Rhagfyr

Blaenor y mis: Marian Beech Hughes

- 1 Oedfa dan arweiniad y Parch Richard Lewis
Capel Noddfa am 10 o'r gloch
- 4 Chwirydd y Garn yn cyfarfod am baned a sgwrs
Crefftau Pennau am 2.30 o'r gloch
- 8 Oedfa gymun dan arweiniad y Parch Wyn Morris
am 10 o'r gloch
- 15 Oedfa dan arweiniad Dr Rhidian Griffiths
am 10 o'r gloch
- 20 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Dathlu'r Nadolig'
yng nghwmni Anwen Pierce ac Angharad Fychan
- 22 Gwasanaeth y Gair a'r Geiriau
am 10 o'r gloch
- 25 Bore'r Nadolig
Oedfa am 9 o'r gloch
- 29 Dim oedfa

Y Nadolig

Tyrd i weled a chredu, – yn y gwellt
Gwêl y Gair yn cysgu,
Ac yna cyhoedda'n hy
Wrth y byd wrth y beudy.

John Gwilym Jones



Wythnos Cymorth Cristnogol

Bore Sul, 12 Mai, ar ddechrau Wythnos Cymorth Cristnogol eleni, cynhaliwyd oedfa arbennig yng Nghapel y Garn gydag aelodau'r Garn a'r Noddfa'n bresennol ac yn cymryd rhan. Yn dilyn y gwasanaeth, cafwyd cinio syml o fara a chaws.

Gwnaed casgliad o £318 tuag at yr elusen, ac rydym yn ddiolchgar i bawb a gefnogodd yr ymgyrch arbennig hon.

Dyma'r neges o ddiolch a dderbyniwyd:

Diolch am eich cefnogaeth, gweddïau a haelioni anhygoel yn ystod yr Wythnos Cymorth Cristnogol hon.

Gyda'ch gilydd, rydych chi wedi codi £318.00 i helpu teuluoedd ledled y byd i drawsnewid eu bywydau eu hunain.

Bydd eich rhodd hael yn helpu menywod fel Aline Nibogora yn Nhalaith Makamba, Burundi. Teimlodd Aline rym llawn tlodi eithafol pan ddaeth priodas gynnar i ben mewn cam-drin a thrais. Wedi'i gwahanu oddi wrth ei chwe phlentyn, fe'i gorfodwyd i gysgu ar strydoedd Burundi.

Gyda'ch help chi, gwthiodd Aline yn ôl yn erbyn tlodi eithafol. Heb fyw o ddydd i ddydd bellach, gall Aline a'r phlant gynllunio ar gyfer y dyfodol y byddant yn ei adeiladu gyda'i gilydd. Meddai: 'Mae un o fy mhlant yn breuddwydio am ddod yn feddyg. Rydw i eisiau gallu talu i'm plant fynd i'r brifysgol. Gobeithio gyda help Duw y bydda i'n gallu.'

Diolch i bobl fel chi, mae'r trawsnewid hwn wedi bod yn bosibl i Aline a'i theulu.

Gyda diolch twymgalon,
Eich Tîm Wythnos Cymorth Cristnogol



Gweddi'r Cynhaeaf



Dduw'r Creawdwr, rwyf yn rhoi bywyd a goleuni i'r byd.
Cydlawenhawn yn rhyfeddod a chyflawnder
dy greadigaeth.

Diolchwn am yr hadau bach sy'n blodeuo'n goed mawr
ac yn dwyn ffrwyth helaeth.

Ymhyfrydwn yn rhoddion natur a'r gobaith a ddaw yn sgil
cynhaeaf da.

Dduw Cariad, rwyf ti'n adnabod ein tristwch a'n ffaeleddau.

Rydyn ni wedi torri'r hyn oedd yn ffynnu.

Rydyn ni wedi bwyta a dinistrio'r hyn a roddwyd i ni
i'w meithrin.

Rydyn ni'n edifarhau am ein camweddau,
ac yn gofyn i ti ein harwain ar hyd llwybrau cyfiawnder.

Y Duw Byw, rwyf ti'n galw arnom i hau heddwch, i dyfu ffydd,
a gofalu am ein gilydd mewn cariad. Planna ynom ymrwymiad
i ddilyn yr alwad honno. Cryfha ein gobaith wrth i ni gyd-geisio
dyfodiad dy deyrnas ar y ddaear. Amen.

Myfyrdod y Cynhaeaf

Mae'r ddaear yn ffrwythlon; boed i ni fod yn hael.

Mae'r ddaear yn fregus; boed i ni fod yn addfwyn.

Mae'r ddaear wedi torri; boed i ni fod yn gyfiawn.





Madog

Alwyn Hughes yn cyflwyno llun o Gapel Madog a'r englyn gan Eurig Salusbury a gomisiynwyd gan yr aelodau i'r Parch. Watcyn James ar achlysur ei ymddeoliad.

Mae'r englyn i'w weld ar glawr y rhifyn hwn.



Ordeinio blaenoriaid newydd yng nghyfarfod yr Henaduriaeth yn y Garn

Dydd Mercher, 18 Medi, tro'r Garn oedd hi i groesawu aelodau Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro. Llywyddwyd y cyfarfodydd gan Dr Rhidian Griffiths, Llywydd yr Henaduriaeth, ac arweiniwyd mewn defosiwn gan Alan Wynne Jones a Marian Beech Hughes.

Yn ystod cyfarfod y prynhawn bu'r Parch. Eifion Roberts yn sgwrsio gyda thair aelod oedd wedi'u hethol i fod yn flaenoriaid, a hyfryd oedd clywed eu hymatebion a'u hymrwymiad i weithio yn eu heglwysi.



Yna, mewn oedfa gyhoeddus ordeiniwyd yr Athro Marged Haycock, Madog, Mrs Delyth Evans a Mrs Rhiannon Jones, Clos-y-graig, Llandysul, yn flaenoriaid yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Roedd yr ordeinio dan ofal y Parch. Carwyn Arthur, Tregaron, sydd newydd gael ei urddo yn Llywydd Cymdeithasfa'r De – a dyma'r ddefod gyntaf iddo fod yn gyfrifol am ei chynnal. Bydd y Fns Angharad Lewis, Madog, sydd hefyd wedi'i hethol yn flaenor ond a oedd yn methu bod yn bresennol, yn cael ei hordeinio yng nghyfarfod mis Ionawr yng Nghapel y Morfa.

Teyrnged i Eilir Morris, Pen-llwyn

Trist yw cofnodi marwolaeth Eilir Morris yn ei gartref ar 26 Mehefin. Ganwyd Eilir yn Abergynolwyn, yn fab i'r Parch. Maelgwyn a Mrs Nellie Morris. Pan oedd yn dair blwydd oed derbyniodd ei dad alwad i ddod yn weinidog ar gapeli Pen-llwyn ac Aber-ffrwd a symudodd y teulu i fyw i'r mans ym Mhen-llwyn. Mynychodd Eilir yr ysgol leol, cyn mynd ymlaen i Ysgol Ramadeg Ardwyn yn Aberystwyth.

Pan oedd yn ddeunaw oed gorfu iddo, fel llawer o'l gyfoedion, fynd i wneud ei Wasanaeth Gwladol ac anfonwyd ef i wersyll y Llu Awyr yn Swydd Efrog. Yn ystod y cyfnod yma collodd ei fam wedi salwch byr a bu hon yn ergyd fawr iddo, ac yntau'n unig blentyn. Ar ôl gorffen ei Wasanaeth Gwladol aeth i goleg ym Manceinion i astudio peirianeg a chael swydd gyda chwmmi o Loegr. Priododd â Linda yn 1956, a gwnaeth y ddau eu cartref yn Lloegr. Ar ôl geni eu merch, Gaenor, troi eu golygon yn ôl i Gymru ac o dipyn i beth glanio 'nôl yn eu pentref genedigol ym Mhen-llwyn, ac Eilir yn cael swydd gyda'r Bwrdd Iechyd yn Ysbyty Bronglais fel Mid-Wales Hospital Engineer. Cafodd ei anrhydeddu yn 1972 a'i wneud yn Fellow of Hospital Engineers am ei waith gyda'r Bwrdd. Ar ôl hyn, cafodd ddyrchafiad yn Group Engineer, a'r ysbytai dan ei ofal yn ymestyn i lawr i sir Benfro – roedd hyn yn amser prysur a chyfrifol iawn iddo.

Ar ôl yr ail ad-drefnu mawr yn yr wythdegau, penderfynodd Eilir ymddeol a chafodd ymddeoliad hir a hapus gyda'i deulu a'i ffrindiau. Yn ei wythdegau, dioddefodd o glefyd y galon a chael llawdriniaeth fawr yn Nhreforys. Ond ymhen dim amser roedd yn ôl yn gwneud ei ddyletswyddau yn ei gartref a hefyd yn y capel. Roedd yn aelod ffyddlon o Gapel Pen-llwyn; bu'n ofalwr yr adeiladau am 30 mlynedd ac roedd wrth ei fodd yn cyflawni'r gwaith. Roedd yn ymfalchïo'n fawr yn ei deulu a'u llwyddiant academiaidd ac yn falch o gael bod yn hen dad-cu i Siwan a Cynan. Person diymhongar a chyfeillgar oedd Eilir ac ni fynnai sylw a chyhoeddusrwydd. Roedd o natur swil ac eto yn llawn hiwmor a digrifwch; ni fynnai fod yn y lleddf, ac roedd yn berchen ar ruddin a chryfder a'i galluogodd i godi uwchlaw anawsterau bywyd.

Bu ef a Linda yn briod am 68 mlynedd a mawr yw'r golled ar ei ôl. Eto, mae ein diolch am y blynyddoedd, a derbyn o'i hiwmor, ei wên siriol, y gofal mawr a'i gariad. Gedy fwlc na ellir ei lenwi.

Dymunwn fel eglwys gydymdeimlo'n fawr â Linda, Gaenor a Philip, a'r teulu oll yn eu colled a'u hiraeth. Gwelwn fel eglwys ei golli yn fawr hefyd.

Diwedd cyfnod, nid diwedd cofio.

Heulwen Lewis

Pen-llwyn

Roedd Sul, 7 Gorffennaf, yn ddiwrnod eithaf trist yma ym Mhen-llwyn gan mai hwn oedd Sul olaf ein Gweinidog i bregethu yn ein capel ni.

Cawsom bregeth eneiniedig unwaith yn rhagor a Watcyn ar ei orau, a'r Efengyl yn cael ei chyflwyno yn ei phurdeb fel bob amser. I'r rhai a fanteisiodd ar bresenoli eu hunain yn yr oedfaon, mae'r saith mlynedd diwethaf wedi bod yn fendithiol dros ben i bob un.

Diolchwyd i'n Gweinidog am ei wasanaeth ffyddlon a'i arweiniad doeth, ac i Lowri am ei chyfeillgarwch a'i chefnogaeth i'w phriod drwy'r cyfnod y bu iddynt ein gwasanaethu ym Mhen-llwyn.

Cawsom baned a sgwrs hyfryd cyn dychwelyd i'n cartrefi a myfyrio ar yr hyn a glywsom ar y noson.

Dymunwyd ymddeoliad hapus iawn i Watcyn a Lowri, a diolch eto am bob peth.

Llwybr Arfordir Ceredigion, 21–3 Gorffennaf

Her fach bersonol oedd y syniad gwreiddiol: i nodi 20 mlynedd ym mis Tachwedd ers inni golli Dad y byddem yn cerdded hyd Llwybr arfordir Ceredigion i gyd mewn tridiau – 20 milltir y diwrnod. Cancr y coluddyn oedd y lleidr aeth â Dad oddi wrthym, cyflwr sy'n dal i effeithio ar lawer gormod o bobl. Er mai her i gofio am Dad oedd hon ac i dynnu sylw at symptomau cancr y coluddyn, daeth hi'n amlwg fod nifer yn awyddus i'n nodd. Dewiswyd felly Ward Colorectal fel un o'n helusennau, uned ac arbenigedd nad oedd yn bodoli yn Ysbyty Bronglais pan oedd Dad yn mynd drwy'r driniaeth. Yr ail uned inni ei dewis yw'r Uned Chemo y bu Dad yn ymwelydd cyson â hi am gyfnod o ddwy flynedd.

Ar ôl colli rhywun, rydych chi'n pryderu y bydd eich anwylyd yn cael ei anghofio, ac felly mae wedi bod yn hyfryd derbyn yr holl negeseuon caredig am Dad. Yn anffodus, chafodd Llew, Moi a Now mo'r fraint o gwrdd â 'Dad-cu Penrhyn-coch' ac er ei fod yn aml yn rhan o'n sgwrs ni fel teulu, mae wedi bod mor braf iddyn nhw weld geiriau caredig eraill amdano.

Mewn sgwrs dros baned gyda ffrindiau 'nôl ym mis Chwefror y dechreuwyd trafod yr her, a dros amser daeth yn amlwg bod nifer o ffrindiau'n awyddus i gefnogi a bod yn rhan o'r daith.

Roedd 25 ohonom yno yn Ynys-las am saith y bore ar y diwrnod cyntaf, gyda'r ystod oedrannau'n ymestyn o saith i saith deg tri – pob un â'i reswm personol i fod ar y daith.

Dechrau digon hamddenol sydd i'r llwybr, gyda milltiroedd fflat o Ynys-las i'r Borth sy'n berffaith ar gyfer cynhesu'r cyhyrau cyn y rhannau mwy heriol. Bydd sawl un sy'n darllen wedi cerdded y llwybr rhwng y Borth a Clarach, mae'n siŵr, ac yn ymwybodol iawn o'r rhiwiau a grisiau serth ar y rhan yma. Er hynny, mae'n gymal braf iawn ac roedd pawb mewn hwyliau da wrth ddringo Consti ac agosáu at Aber. Roedd Millie y ci hefyd yn dod ag adloniant cyson!

Mae cinio'n aros amdanom yn yr harbwr, ond cyn hynny rhaid cerdded y Prom, ac mae'n braf iawn gweld nifer o wynebau cyfarwydd yn ein cefnogi wrth i ni basio.

Mae pawb yn ymwybodol iawn o'r hyn sy'n ein hwynebu nesaf – rhiw Allt Wen o draeth Tan-y-bwlch, sef dringfa galetaf y daith i gyd. Pawb wrth eu pwysau eu hunain ydy'r gyfrinach fan hyn a buan iawn mae pawb yn cyrraedd y brig ac yn anelu am Lanrhystud. Dyma'r cymal hiraf o'r daith heb gyrchfan, rhyw naw milltir i gyd, ac er bod y golgyfeydd yn odidog mae'r blinder yn dechrau taro a'r traed yn dechrau cwyno.

Unwaith y daw Lanrhystud i'r golwg mae llinell derfyn diwrnod un yn Llan-non o fewn cyrraedd. Dechrau digon lletchwith sydd i'r cymal yma, gyda milltir garegog ar y traeth, cyn gwyro trwy gaeau tuag at Lan-non gan basio adfeilion difyr odynau calch Craig-las. O'r diwedd, wedi bron i 22 milltir mae'r diwrnod cyntaf ar ben!

Mae'n alwad gynnar am yr ail ddiwrnod – 7 y bore yn Neuadd Llan-non – wrth i ni ddechrau ar ddiwrnod hiraf y daith. Digon llwm ydy hi am y milltiroedd cyntaf gyda glaw mân yn gwlychu i'r croen yr holl ffordd i Aberaeron. Ond mae'r hwyliau'n codi wrth i'r cymylau wasgaru a'r criw'n gwneud amser da i Gei Bach.

Mae pawb wedi archebu pei cartref i ginio yng Ngheinydd a'r haul yn tywynnu wrth i bawb fwynhau egwyl fach. Er hynny, mae darn heriol iawn yn ein hwynebu – gellid dadlau mai o'r Cei i Gwmtedu i Langrannog ydy rhan fwyaf trawiadol llwybr Ceredigion, ond dyma hefyd y mwyaf heriol o ran dringo hefyd. Rydyn ni dros hanner ffordd erbyn hyn, ac mae'r blinder yn dechrau dangos wrth inni agosáu at Gwymtydu, ynghyd â sawl pothell!



Y criw blinedig – ond hapus – ar ddiwedd y daith

Tre-saith oedd y targed ar ddiwedd yr ail ddiwrnod ond mae pawb yn cytuno bod Llangrannog yn ddigon da wrth i'r camau arafu. Lladdfa o ddiwrnod a phawb yn falch o gyrraedd y llety yn Nhre-saith.

Mae'n ddechrau heriol ar gyfer y trydydd dydd o Langrannog i Benbryn, ac er bod niwl y môr ben bore mae hwnnw'n clirio wrth i ni barhau tua Thre-saith ac ymlaen i Aber-porth. Mae criw bach newydd o gerddwyr yn ymuno yn Aber-porth gan ddod ag egni o'r newydd wrth inni anelu am gymal hyfryd arall i gyfeiriad Mwnt. Wedi paned a chinio cyflym ym Mwnt mae'n rhaid bwrw mlaen, ac er bod blinder mawr a llawer o draed poenus, mae ysbryd pawb yn llon wrth i ddiwedd y daith agosáu. Wrth basio trwy Gwbert mae ceg afon Teifi yn dod i'r golwg a phawb yn gwybod bod Aberteifi o fewn cyrraedd.

Cerflun y dwrgi ger Castell Aberteifi ydy diwedd swyddogol llwybr Ceredigion, a'r plant, sawl un ohonynt wedi cerdded pob cam o'r daith, sy'n arwain y criw tua'r terfyn. Mae'n anodd disgrifio'r teimlad o gwblhau'r her – mae'n gymysgedd rhyfedd o ryddhad, balchder, emosiwn a llawenydd, a phawb yn teimlo'u bod wedi bod yn rhan o brofiad arbennig iawn.

Diolch o galon i bob un sydd wedi ein noddi. Bydd y gronfa yn parhau ar agor hyd at 7 Hydref i unrhyw un arall sy'n dymuno cyfrannu:

www.justgiving.com/crowdfunding/CofioAmAlwyn

Lowri Schiavone

Deall y Beibl yn Well

Dros fisoedd y gaeaf (2023/24) fe gynhaliodd Cristnogaeth21 bedair sgwrs rithiol dros Zoom dan y pennawd 'Deall y Beibl yn Well'.

Bwriad y sesiynau oedd cynnig cyfleoedd, dan arweiniad dau o'r academyddion Beiblaidd Cymraeg praffaf, i gael gwell dealltwriaeth ar agweddau o'r Ysgrythurau.

Cafwyd dwy sesiwn gan yr Athro Eryl Wynn Davies, a draddododd gyflwyniad i'r Ysgrythurau Hebraeg (yr Hen Destament). Traddododd yr Athro Catrin Haf Williams ddwy sgwrs ar y Testament Newydd – un ar agweddau'r Testament Newydd at Iddewiaeth ac un ar agweddau'r Testament Newydd at fenywod. Bu derbyniad da iawn i'r sgysiau, gyda nifer yn holi am gyfle i'w dilyn eto.

Rydym yn falch o gyhoeddi bod y cyflwyniadau hyn bellach i'w gweld ar-lein ar sianel YouTube **Cristnogaeth 21 Cymru**.

Maen nhw o ddiddordeb i unigolion sy'n ymddiddori mewn beirniadaeth Feiblaidd. Mae'n bosib eu defnyddio hefyd fel adnodd ar gyfer trafodaethau grŵp. Mwynhewch y sgysiau., ac edrychwn ymlaen at ychwanegu at ein deunydd gweledol ar ein sianel YouTube yn fuan.

Swyddogion yr Ofalaeth

Cadeirydd: Alwyn Hughes, Madog

Is-gadeirydd: Glyn Saunders Jones, y Garn

Ysgrifennydd: Gruffydd Aled Williams,

Bronafon, Dolau, Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AE
(ffôn: 01970 820664; ebost: gawilliams1@btinternet.com)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **8 Rhagfyr** i'r golygydd:

Marian B Hughes, 14 Maes y Garn, Bow Street
01970 828662; marian_hughes@btinternet.com